## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

### Gwybodaeth ymhellach i OAQ21695, a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Trefnydd, ar 6 Tachwedd 2002

**I Kirsty Williams:**

Fe'ch cyfeiriaf at gofnod Cyfarfod Llawn 6 Tachwedd, lle codoch y cwestiwn canlynol:

'A wnewch chi ystyried ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo gynhyrchu dogfen gaffael leol bob blwyddyn er mwyn inni allu archwilio lefelau caffael lleol?'

Ymatebais innau:

'Dyna awgrym diddorol. Os cofiaf yn iawn, mae'n bosibl i awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a'r Cynulliad osgoi rheolau caffael Ewropeaidd os bydd gwerth y contract yn is na £5,000. Bu hynny'n hysbys ers rhai misoedd. Nid yw'n swm mawr iawn o arian, ond mae gwledydd Ewropeaidd eraill, er nad ydynt yn osgoi'r rheolau caffael, yn ymdrin â sawl contract bach. Er enghraifft, gallai awdurdod addysg gael contract ar wahân ar gyfer cyflenwi tatws, blodfresych, cig ac ati. Dyna'r ffordd y maent yn osgoi rheolau caffael Ewrop. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor yn ymgymryd â hyn. Credaf fod yr awgrym yn un diddorol.'

Credaf y gallai fy ateb fod wedi rhoi'r argraff y gall awdurdodau lleol osgoi rheoliadau caffael Comisiwn Ewrop drwy rannu eu contractau yn gontractau llai. Nid dyna oedd fy mwriad.

Mae caffael bwyd, sef yr hyn yr oeddwn yn cyfeirio ato, yn ddarostyngedig i reoliadau caffael cyhoeddus Ewropeaidd. Mae'n debygol y bydd y swm o arian y bydd unrhyw awdurdod yn ei wario ar fwyd yn fwy na throthwy Comisiwn Ewrop, sef £100,410 i'r Cynulliad a £154,477 i rai o'n CCNC a'n hawdurdodau lleol ar hyn o bryd.

Mae'r rheoliadau yn dweud yn glir na cheir rhannu unrhyw gontract gyda'r bwriad o osgoi rhoi'r rheoliadau ar waith, fel y gellid bod wedi tybio o'm hateb cynharach. Fodd bynnag, wrth roi gofynion bwyd allan i dendr, gall awdurdodau lleol rannu eu gofynion yn nifer o becynnau bach er mwyn annog cyflenwyr lleol i ymgeisio. Yn ogystal, gellir ysgrifennu manylebau mewn modd a fydd yn annog cyflenwyr lleol i ymgeisio drwy bennu bod angen rhywfaint o gynnyrch organig a ffres.

Efallai eich bod yn ymwybodol hefyd o ddau brosiect peilot sy'n ymchwilio i ffyrdd o gryfhau'r gadwyn cyflenwi bwyd lleol yng Nghymru. Bydd y peilot cyntaf yn ystyried contractau arlwyo yn y sector cyhoeddus ac yn archwilio'r gost a'r goblygiadau cyfreithiol o annog defnyddio cynnyrch lleol. Caiff y prosiect hwn ei yrru yn ei flaen gan dîm menter gaffael Cymru. Bydd yr ail beilot, o dan arweiniad Awdurdod Datblygu Cymru, yn ystyried rheolaeth y gadwyn gyflenwi, gyda'r nod o gynyddu'r gyfran o gynhwysion crai o Gymru sy'n cael eu cyflenwi i awdurdodau'r sector cyhoeddus.

Bydd canlyniadau'r naill beilot a'r llall yn dylanwadu ar y lefelau caffael lleol sydd ar waith ar hyn o bryd, a sut mae hyrwyddo defnyddio cyflenwadau lleol yn y dyfodol.